Urdd Gobaith Cymru

Cynllun Corfforaethol 2008-2011



urdd.org

1. Dyheadau Urdd Gobaith Cymru

Sicrhau parhad yr iaith Gymraeg fel iaith sy'n ffynnu. Credwn mai dim ond trwy fuddsoddi mewn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ymhlith plant a phobl ifanc y bydd hynny'n digwydd.

Cynyddu gweithgaredd chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwaith yr Urdd yn cyflawni amcanion 'Dringo'n Uwch', dogfen bolisi Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n cynorthwyo pobl ifanc Cymru i fod yn iachach, mae'n gwneud y mwyaf o'r cysylltiad rhwng chwaraeon a'r amgylchedd naturiol, ac mae'n creu mwy o gymunedau bywiog yng Nghymru. Rydym yn cynnig cyfle i 30,000 o blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon. Rydym yn cynnal degau o glybiau chwaraeon cymunedol ac yn cynnig hyfforddiant i fod yn hyfforddwyr chwaraeon i dros 200 o bobl ifanc yn flynyddol. Yn eu tro mae'r bobl ifanc yn cychwyn clybiau lleol chwaraeon yn enw'r Urdd ac yn cyfrannu'n greadigol i'w cymunedau.

Datblygu gwersylloedd yr Urdd. Ar hyn o bryd daw 38,000 o ymwelwyr i aros ynddynt. Bwriedir cynyddu'r niferoedd yn ystod cyfnod y cynllun. Byddwn yn rhoi sylw i ddulliau o farchnata a denu cynulleidfaoedd newydd i'r gwersylloedd, yn ogystal â datblygu cynnwys cyrsiau newydd. Byddwn yn denu grantiau er mwyn ailddatblygu rhan o Wersyll Glan-llyn. Byddwn yn adolygu cynllun busnes Gwersyll Llangrannog ac yn cynllunio datblygiadau addas i'r dyfodol.

Cynyddu'r cyfraniad economaidd a wna'r Urdd i fywyd Cymru, yn enwedig yng Nghymru wledig. Mae Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn cyfrannu £6.4m i'r economi lleol yn yr ardal y cynhelir yr Eisteddfod (dadansoddiad STEAM). Mae trosiant Gwersyll Llangrannog bellach yn £1.8m, Gwersyll Glan-llyn yn £1m, a Gwersyll Caerdydd yn £0.5m. Ein nod yw cyfrannu i economi ffyniannus sy'n sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy trwy estyn cyfleoedd i bawb, yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ddogfen 'Cymru: Economi yn Ffynnu'.

Cydweithio i sicrhau bod ein gwaith cymunedol, addysgol a chelfyddydol yn cyfrannu i strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Rydym yn arbenigo mewn cynnig gwasanaeth ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg, a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau fod y ddarpariaeth ar draws Cymru yn cynyddu gan gyfrannu at gyflawni amcanion Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cymru. Rydym yn bwriadu torri cwysi newydd yn ein gwaith cymunedol, yn ogystal ag adeiladu ar gynlluniau presennol. Byddwn yn effro i ddatblygiadau o ran Llwybrau Dysgu 14-19 i'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig drwy hynny. Byddwn yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddwn yn denu gwirfoddolwyr newydd ac yn canolbwyntio ar oedrannau pontio gan sicrhau dilyniant yn ein gweithgareddau.

Sicrhau bod mwy o gyfle i bobl ifanc yng Nghymru i brofi a chymryd rhan yn y celfyddydau. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddenu mwy o gystadleuwyr i gymryd rhan yn ein heisteddfodau a thrwy ddatblygu cynlluniau cymunedol. Bwriedir parhau i ddatblygu Theatr Genedlaethol yr Urdd fel dull o fagu arbenigedd gan bobl ifanc yn y maes celfyddydol. Byddwn yn sicrhau fod yr amrywiaeth o brofiadau celfyddydol a gynigir, o gystadlu i gyrsiau i berfformiadau, yn flaengar a chyffrous.

2. Cefndir

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Urdd ynglŷn â sut mae'n bwriadu gweithredu yn y cyfnod 2008-2011 a chafodd ei gymeradwyo gan Gyngor Urdd Gobaith Cymru ar 23 Mehefin 2007.

Mae'n cynnwys targedau ar gyfer mesur cynnydd dros y cyfnod, a fydd yn sail i Gynllun Gweithredu Urdd Gobaith Cymru am yr un cyfnod.

Cred yr Urdd fod ganddo rôl bwysig wrth gyflwyno gweithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc, sydd yn ymateb i'w hanghenion, ac sydd yn eu hargyhoeddi fod byw bywyd Cymraeg yng Nghymru yn gyffrous a heriol.

Mae'r hyn a gynigia'r Urdd i'w aelodau yn cynnwys gweithgareddau ar lefel leol, daleithiol a chenedlaethol. Mae'r gweithgareddau a'r profiadau hynny'n cynnwys y cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, mewn eisteddfodau, mewn gweithgareddau a digwyddiadau chwaraeon ac mewn digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol. Cânt y cyfle i fynychu gwersylloedd preswyl, ac i fynychu teithiau eraill achlysurol.

Mae'r Urdd yn awyddus i sicrhau ei fod yn cynnig cymaint o gyfleoedd â phosibl i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd hamdden a chymdeithasol bob dydd, fel sy'n cael ei osod fel un o amcanion 'Iaith Pawb'.

Wrth ddatblygu'r Cynllun, rhoddwyd sylw i'r dogfennau canlynol:

- 'Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer Cymru' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
- 'Iaith Pawb', Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
- 'Ymestyn Hawliau', Adroddiad gan Uned Bolisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru
- 'Y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru'
- Strategaeth Ieuenctid Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- 'Dringo'n Uwch', Strategaeth Chwaraeon ar gyfer Cymru
- 'Llwybrau Dysgu 14-19', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mae Urdd Gobaith Cymru yn gwmni cyfyngedig drwy warant (rhif 263310) ac yn elusen gofrestredig (rhif 524481). Cafodd ei sefydlu yn 1922, ac mae wedi datblygu yn barhaus ers hynny.

3. Cyd-destun

Nod Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol. Cyflawnir hyn trwy'r delfryd o wasanaeth i Gymru, Cyd-ddyn a Christ.

Corff cenedlaethol yw Urdd Gobaith Cymru sy'n darparu gwasanaeth a gweithgareddau a digwyddiadau i'w aelodau sydd rhwng 8 a 25 oed. Mae'n gweithredu trwy 17 o ranbarthau, sydd yn eu tro yn perthyn i dair talaith, a'r cyfan yn rhan o gyfundrefn genedlaethol. Allwedd llwyddiant yr Urdd yw'r bartneriaeth rhwng aelodau'r Urdd, gwirfoddolwyr yr Urdd a staff yr Urdd.

Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau yn flynyddol, 180 aelod o staff (cyfateb i amser llawn) ac amcangyfrifir fod hyd at 10,000 o wirfoddolwyr yn cyfrannu tuag at weithgareddau'r Urdd yn flynyddol.

Mae dros 90,000 o ddisgyblion ysgol yng Nghymru yn derbyn o leiaf ran o'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 35,000 ohonynt yn aelodau o'r Urdd, 22,000 yn yr oedran cynradd a 13,000 yn yr oedran hŷn. Mae gan yr Urdd 15,000 o aelodau sy'n dweud eu bod yn ddysgwyr (10,000 yn yr oedran cynradd a 5,000 yn yr oedran hŷn). Mae dros 30% o aelodau'r Urdd yn dweud eu bod yn ddysgwyr.

Mae gan yr Urdd drosiant o dros £6m. Mae ei ffynonellau incwm yn cynnwys incwm o'r gwersylloedd, grantiau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a'r Awdurdodau Unedol, tâl aelodaeth, nawdd ac incwm drwy roddion a chymynroddion.

Mae 80% o incwm yr Urdd o ffynonellau hunan gynhyrchu. Codir hyn drwy weithgareddau sy'n hunan gynhyrchu incwm, gan gynnwys tâl aelodaeth, incwm o'r gwersylloedd, gwerthiant cylchgronau a gweithgareddau codi arian. Daw 20% o incwm canolog yr Urdd mewn grantiau o ffynonellau cyhoeddus. Nid yw'r ffigurau yma yn cynnwys y symiau sy'n cael eu codi gan adrannau ac aelwydydd unigol i gynnal eu gweithgareddau nac yn cynnwys costau cynnal gweithgareddau yn rhanbarthol.

Mae'r Urdd wedi ei ymrwymo i 'Ddatganiad y Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru', ac mae'n awyddus i sicrhau hunan-barch a hunan werth unigolion. Mae'n derbyn arwyddocâd canolog iaith i hunaniaeth bersonol a chenedlaethol; fod hawl gan siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd; fod dyletswydd ar unigolion i ddatblygu eu potensial corfforol, meddyliol ac ysbrydol; ei bod yn bwysig parchu eraill heb ystyried iaith, hil, crefydd, rhyw neu anabledd; fod cyfrifoldeb moesol gan unigolion at yr hunan, eraill a'r amgylchedd a bod gwerth mewn gonestrwydd, diffuantrwydd ac annibyniaeth barn.

Mae'r Urdd hefyd yn cydnabod hawliau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i fod yn aelod o'r Urdd, i gymryd rhan, i dderbyn gwybodaeth ac i roi barn. Mae hyn yn unol â chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn.

Mae'r Urdd o'r farn fod hawl gan blant a phobl ifanc i dderbyn gwasanaeth ac i ymwneud â gweithgareddau a digwyddiadau mewn safleoedd diogel, o dan arweiniad staff a gwirfoddolwyr sydd wedi eu hyfforddi'n addas. Mae'r Urdd yn ymwybodol o fanteision cynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ac wrth lunio rhaglenni addas. Rydym hefyd yn ymgynghori gyda phobl ifanc, mewn amrywiol ddulliau, wrth ddatblygu ac asesu ein gwaith.

Mae'r hawliau yma i bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed yng Nghymru yn cael eu crisialu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y ddogfen 'Ymestyn Hawliau'. Yn y tabl isod, nodir sut mae gwaith yr Urdd yn cyflawni'r hawliau hyn.

Hawl i addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith – wedi'u teilwrio yn unol â'u hanghenion	Gwneir hyn drwy gynlluniau megis Gwirfoddolwyr y Mileniwm, a thrwy gynlluniau hyfforddiant mewn cymwysterau chwaraeon. Mae 300 yn elwa yn flynyddol ar hyn o bryd.
Hawl i sgiliau sylfaenol sy'n agor drysau i fywyd llawn ac sy'n hybu cynhwysiant cymdeithasol	Mae pob gweithgaredd yr Urdd yn cyfrannu at hyn. Mae ein 50,000 o aelodau yn cymdeithasu a mwynhau a datblygu sgiliau wrth ymwneud â'n gweithgareddau.
Hawl i ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd i gyfranogi mewn gwaith gwirfoddol a dinasyddiaeth weithgar	Mae gwaith dyngarol yr Urdd, gan gynnwys cynlluniau gwirfoddoli tramor, a datblygu Neges Ewyllys Da yr Urdd yn cyflawni hyn.
Hawl i gyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch	Mae holl waith yr Urdd yn cyflawni hyn. Rydym yn sicrhau fod y gweithgareddau'n ddiogel drwy ddilyn yr arferion gorau.
Hawl i brofiadau chwaraeon, celfyddydol, cerddorol ac awyr agored i feithrin doniau, ehangu gorwelion a hybu persbectif cyflawn a chytbwys	Drwy ein gwaith chwaraeon, gyda dros 30,000 yn cymryd rhan yn flynyddol, a thrwy ein gwaith eisteddfodol, gyda dros 40,000 yn cymryd rhan yn flynyddol, rydym yn cyflawni hyn.
Yr hawl i gael eu hystyried, i gyfranogi mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chael clust i wrando arnynt, o safbwynt popeth sydd a wnelo hwy neu sy'n cael effaith ar eu bywydau.	Mae'r Urdd yn datblygu'r gwaith hwn, ac yn cynnal cynlluniau cyfranogi penodol. Mae'r Urdd hefyd yn datblygu arbenigedd mewn cynlluniau cyfranogi cyfrwng Cymraeg i ddarganfod anghenion pobl ifanc.

4. Ystadegau am yr Urdd

- Dros 50,000 o aelodau
- dros 900 o ganghennau
- 94,000 o gylchgronau yn cael eu gwerthu yn flynyddol
- 38,000 yn aros yn ein gwersylloedd yn flynyddol
- 30,000 yn cymryd rhan yn ein cystadlaethau chwaraeon
- 40,000 yn cystadlu mewn eisteddfodau cylch
- 180 aelod o staff (cyfwerth â llawn amser)
- 10,000 o wirfoddolwyr yn cyfrannu i'n gweithgareddau
- 350,000 o ymwelwyr â'n gwefan ...urdd.org
- £6m o drosiant

Aelodaeth fesul Rhanbarth

Rhanbarth	Aelodau	Canghennau
Môn	2564	62
Eryri	4361	93
Meirionnydd	1909	52
Conwy	2714	72
Dinbych	2302	66
Fflint Maelor	2409	60
Maldwyn	2348	50
De Powys	793	33
Ceredigion	4618	112
Gorllewin Myrddin	2879	59
Dwyrain Myrddin	3129	69
Penfro	3777	80
Gorllewin Morgannwg	4057	77
Bro Morgannwg Ganol	2768	45
Blaenau Morgannwg Ganol	1860	39
Caerdydd a'r Fro	4474	78
Gwent	3928	74
Tu allan i Gymru	71	4
Cyfanswm	**50961**	**1125**

urdd.org

Aelodau yn ol math o gangen



urdd.org

Gweithgareddau Maes Ebrill 06 – Chwefror 07



urdd.org

5. Blaenoriaethau'r Urdd am y cyfnod 2008-2011

Gosodir y canlynol fel blaenoriaethau am y cyfnod 2008-2011, gan adeiladu ar y blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer 2005-2008.

- Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

  Cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth, addas i'r oedran, gan roi ystyriaeth arbennig yn oes y cynllun i'r oedran pontio cynradd i uwchradd, ac uwchradd i hŷn. Gwelir gostyngiad yn nifer aelodaeth yn y cyfnodau pontio, yn ogystal â phrinder cyfleoedd cymdeithasol eraill i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg.

  Gwelir lleihad hefyd yn y niferoedd sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol. Cred yr Urdd fod ganddo y rhan blaenaf i'w chwarae wrth gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i blant a phobl ifanc fyw bywydau llawn trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

- Cynyddu'r pwyslais ar weithredu yn gymunedol

  Blaenoriaethu gweithgaredd y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys gweithgareddau a digwyddiadau amser gwyliau.

  Rhoi ystyriaeth i'r cydbwysedd ym mhob rhanbarth - rhwng cefnogi'r gyfundrefn addysgol, a datblygu gweithgaredd sy'n ategu'r gyfundrefn honno.

- Canolbwyntio ar ddatblygu'r unigolyn

  Cynnig amrywiaeth o brofiadau i blant a phobl ifanc. Profiadau diwylliannol drwy gyfrwng yr Eisteddfod, profiadau preswyl drwy gyfrwng gwersylloedd a theithiau tramor, profiadau gwirfoddoli trwy gyfrwng gwaith dinasyddiaeth a dyngarol. Gall profiadau dyngarol gynnwys profiadau lleol, cenedlaethol neu ehangach.

  Cynorthwyo plant a phobl ifanc i ddewis bywyd iach – drwy weithgaredd chwaraeon, a phrosiectau'n hybu dewisiadau bywyd iach.

  Parhau i roi blaenoriaeth i sicrhau fod pob plentyn neu berson ifanc, beth bynnag fo'u cefndir, talent neu gymhelliad yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan.

  Canolbwyntio ar hawliau aelodau i ymuno (beth bynnag fo'u cred, hil, iaith, gallu neu ryw), i gymryd rhan a derbyn gwasanaeth a gwybodaeth, i roi barn a chael eu parchu, a datblygu, mewn amgylchfyd diogel.

6. ADRAN Y MAES
Gweithgareddau Hamdden, Addysgol a Chelfyddydol

Cefndir

Adran Gwaith Maes yr Urdd sy'n gyfrifol am ddarparu ystod eang o weithgareddau i aelodau'r Urdd ar draws Cymru. Mae gan yr Urdd dîm o staff rhanbarthol - 36 llawn amser, a deg rhan amser, sy'n datblygu, cynnal a gweinyddu rhaglen o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon, ymweliadau â gwersylloedd, eisteddfodau, gwibdeithiau, teithiau cyfnewid, gweithgareddau cymunedol mewn adrannau ac aelwydydd. Maent yn trefnu dros gant o Eisteddfodau Cylch, a dros 40 o Eisteddfodau Rhanbarth. Trefnir cystadlaethau chwaraeon rhanbarthol a thaleithiol yn ogystal.

Mae gan yr Urdd rwydwaith eang o ganghennau. Mae 75% yn ganghennau ysgolion a 25% yn ganghennau sy'n gweithredu yn gymunedol. Mae 33,000 (65%) o aelodau'r Urdd o dan 11 oed, 15,000 (29%) rhwng 12 ac 16, a 3,000 (6%) rhwng 16 a 25.

Gweithredir Strategaeth Chwaraeon yr Urdd gan Reolwr Chwaraeon Cenedlaethol a thîm o bump o swyddogion mewn ardaloedd penodol. Maent yn sefydlu clybiau chwaraeon lleol sydd yn dysgu sgiliau newydd i blant a phobl ifanc, ac yn cynnig cyfle iddynt ddilyn maes diddordeb drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym berthynas agos â'r Cyrff Llywodraethol Cenedlaethol.

Mae'r Urdd hefyd yn cydweithio gyda nifer o asiantaethau mewn mannau gwahanol yng Nghymru ar brosiectau sydd yn cyflogi swyddogion ieuenctid i gyflawni gwaith ieuenctid.

Bydd yr Urdd yn rhoi sylw yn ystod cyfnod y Cynllun i fesur effaith ei waith ar bobl ifanc 11-25. Bydd angen defnyddio ystod eang o gyfryngau i wneud hyn. Wrth i ddewis ddull Llywodraeth y Cynulliad, Dangos Llwyddiant, gael ei ddatblygu, byddwn yn cyfrannu at y broses honno, ac yn gobeithio treialu'r cynllun yn ein gweithgareddau.

Bydd yr Urdd hefyd yn rhan o drefniadau cydweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gyda'r nod o gyfrannu at gyflawni'r Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae'r Urdd yn cynnig profiadau addysgol anffurfiol a di-ffurfiol. Mae'r profiadau a gynigir gan yr Urdd hefyd yn asio'n berffaith gyda gofynion y Fagloriaeth Gymreig.

Amcanion

<u>Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol</u>

1. Cynnig amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau, addas i'r oedran, gan roi ystyriaeth arbennig yn oes y cynllun i'r oedran pontio cynradd i uwchradd, ac uwchradd i hŷn er mwyn datblygu'r ddarpariaeth wrth i unigolion ddatblygu.

2. Rhoi ystyriaeth i beth mae'r Urdd yn ei gynnig i oedrannau amrywiol, a datblygu dulliau o annog cyfranogiad.

3. Cydweithio â phartneriaid eraill i gynnal, a sefydlu cynlluniau ieuenctid sy'n cynnig gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol. Rhoi sylw i'r agenda polisi yn lleol, gan gydweithio gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol yn yr un maes.

4. Ysgogi brwdfrydedd mewn pobl ifanc i wirfoddoli ar ran yr Urdd a chynnig cyfleoedd hyfforddi, lle bo'n addas.

<u>Cynyddu'r pwyslais ar weithredu yn gymunedol</u>

5. Cynnal mwy o weithgaredd cymunedol y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys sefydlu adrannau ac aelwydydd newydd.

6. Cynnal mwy o weithgareddau cymunedol yn ystod cyfnodau gwyliau, gan roi sylw i'r Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

7. Sicrhau fod plant a phobl ifanc, beth bynnag fo'u cefndir yn cael yr un cyfle i gymryd rhan. Sicrhau ein bod yn gweithredu mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru.

<u>Canolbwyntio ar ddatblygiad yr unigolyn</u>

8. Cynnig amrywiaeth o brofiadau diwylliannol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys cynnal a threfnu Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth.

9. Datblygu gwaith chwaraeon Urdd Gobaith Cymru, gan roi sylw i brosiectau sy'n rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau iach. Trwy gyfrwng Swyddogion Prosiect Chwaraeon, sefydlu clybiau cymunedol, a hyfforddi hyfforddwyr chwaraeon, a hyrwyddo cystadlaethau chwaraeon.

10. Trefnu cystadlaethau chwaraeon ar lefel cylch, rhanbarth, taleithiol a chenedlaethol, yn unol â'r Strategaeth Chwaraeon.

11. Cynnig cyfleoedd preswyl i blant a phobl ifanc. Sicrhau teithiau o bob rhanbarth i wersylloedd yr Urdd.

12. Datblygu cynlluniau dyngarol yr Urdd gan gynnwys rhoi sylw i brosiectau lleol a rhyngwladol. Cynnwys gwaith dyngarol yr Urdd yng nghynlluniau presennol y mudiad, lle bo hynny'n bosibl. Rhoi sylw i brosiectau newid hinsawdd ac i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli yn y maes.

13. Datblygu cysylltiadau â gwledydd eraill, yn enwedig lle siaredir ieithoedd lleiafrifol.

7. ADRAN YR EISTEDDFOD A'R CELFYDDYDAU

Cefndir

Nod Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau yw hyrwyddo'r celfyddydau oddi fewn i wasanaethau Urdd Gobaith Cymru i'w aelodau a thrwy hynny gyfrannu at fywyd diwylliannol Cymru. Penllanw gwaith yr adran yw trefnu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn flynyddol. Mae naw aelod o staff llawn amser gan yr adran ac un aelod rhan amser.

Un o'r prif amcanion yw trefnu gŵyl sy'n llawn hwyl, ac sy'n ddigwyddiad cymdeithasol o bwys i bawb yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r Eisteddfod yn gatalydd i gyflwyno'r celfyddydau i blant a phobl ifanc, ac yn feithrinfa gelfyddydol i ddatblygu talentau.

Trefnir 134 o Eisteddfodau Cylch a 71 o Eisteddfodau Rhanbarth o dan oruchwyliaeth Adran y Maes yn flynyddol. Mae'r cystadlaethau yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc ddatblygu ac arddangos eu doniau mewn meysydd amrywiol.

Amcanion

<u>Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol</u>

<u>Canolbwyntio ar ddatblygiad yr unigolyn</u>

1. Cynnal Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol, gan sicrhau cydweithrediad digon o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda threfniadau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cynyddu'r niferoedd o gystadleuwyr sy'n cyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol.

2. Datblygu Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru fel gŵyl ddiwylliannol lwyddiannus lle mae pawb yn mwynhau defnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau trefniadau perthnasol, delweddau positif a blaengar ac atyniadau newydd.

3. Sicrhau cyllid craidd digonol i gynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, er mwyn sicrhau sail ariannol gref er mwyn gallu datblygu i'r dyfodol.

4. Datblygu a gweithredu cynlluniau marchnata addas gyda'r nod o ehangu ar y gynulleidfa, yn enwedig o ardal yr Eisteddfod. Amcangyfrifir fod oddeutu 100,000 yn mynychu'r Eisteddfod yn flynyddol.

5. Datblygu Theatr Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, yn daleithiol a chenedlaethol, a sicrhau cyllid digonol i'w gynnal, gyda'r nod o sicrhau fod yr Urdd yn cynnig profiadau ymestynnol i berfformwyr ifanc. Sicrhau fod 150 yn elwa o'r profiad yn flynyddol.

6. Sicrhau fod gwaddol cymunedol yn cael ei gynllunio fel rhan o ymweliad Eisteddfod i ardal. Gallai canlyniad hyn gynnwys sefydlu adrannau ac aelwydydd newydd, neu gynlluniau eraill.

7. Datblygu'r profiadau celfyddydol ar faes yr Eisteddfod, ac oddi arno, gan gynnwys dosbarthiadau meistr, gweithdai amrywiol a'r cyfle i brofi celfyddydau newydd.

8. Dod o hyd i gyllid ychwanegol er mwyn datblygu'r hyfforddiant y gallwn ei gynnig i hyfforddwyr er mwyn sicrhau gwarchod traddodiadau cynhenid, yn ogystal â datblygu diddordeb mewn celfyddydau newydd.

8. Y GWERSYLLOEDD

Cefndir

Nod gwersylloedd yr Urdd yw creu canolfannau sy'n cynnig cyfleoedd i blant, ieuenctid ac oedolion breswylio, addysgu a chymdeithasu mewn awyrgylch Cymraeg a Chymreig, diogel a chroesawgar. Y maent yn ganolfannau unigryw sy'n cynnig profiadau penigamp. Bu effaith y gwersylloedd ar Gymru fodern yn allweddol, a'n dymuniad yw parhau hynny a'i ddatblygu.

Mae'r Urdd yn cynnig profiadau preswyl drwy ei wersylloedd antur awyr agored yn Llangrannog a Glan-llyn, a'i wersyll celfyddydol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, sydd hefyd yn cynnig profiad dinesig. Mae gan yr Urdd ganolfan ym Mhentref Ifan hefyd sydd yn gallu lletya 18, ac mae'n adnodd sydd yn cael ei rheoli o Langrannog, ar y cyd â phwyllgor lleol.

Yn y gwersylloedd mae plant a phobl ifanc yn cael y profiad o fod yn annibynnol oddi cartref, efallai am y tro cyntaf. Maent yn cael y profiad o fod mewn awyrgylch Cymraeg a Chymreig, yn cael profi merlota, sgïo, hwylio, canŵio, rafftio dŵr gwyn, cerdded afonydd, nofio, gyrru beiciau modur a mwy.

Mae'r rhan fwyaf yn dod i'r gwersylloedd dan ofal eu hysgolion, ac eraill yn dod o dan ofal staff yr Urdd. Mae'r gwersylloedd yn cyfrannu incwm at weithgaredd Urdd Gobaith Cymru. Ni dderbynnir unrhyw arian o ffynonellau cyhoeddus tuag at eu cynnal. Bydd angen rhoi sylw yng nghyfnod y cynllun i ddatblygu'r gwersylloedd er mwyn i ni barhau i fod yn gystadleuol ac i gynnig y gwasanaeth uchaf.

Prif nod yr Urdd yw sicrhau fod ei wersylloedd yn llefydd y mae plant a phobl ifanc eisiau mynd iddynt. Cyflawnir nod yr Urdd pan fydd aelodau'r Urdd yn mynychu'r gwersylloedd am gyfnodau preswyl.

<u>Gwersyll yr Urdd Llangrannog</u>

Mae Gwersyll Llangrannog y mwyaf o'i fath yng Nghymru. Bu buddsoddiad gwerth £5m yn adeiladau a chyfleusterau Llangrannog dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys datblygu bloc cysgu newydd, canolfan chwaraeon ac arddangosfeydd treftadaeth newydd. Mae dros 18,000 o bobl y flwyddyn yn mynychu'r gwersyll yn Llangrannog. Mae 350 o welyau yno yn yr adeiladau 'newydd' a 140 yn yr hen gabanau pren a 35 yn cael eu cyflogi yn llawn amser a 48 yn rhan amser. Amcangyfrifir y bydd niferoedd ymwelwyr yn 20,000 yn ystod 2007-8, ac anelir i gynyddu'r nifer o ymwelwyr i 22,500 erbyn 2010-2011. Ceir nod i greu gweddill ariannol sylweddol blynyddol i'w fuddsoddi yng ngweithgareddau eraill yr Urdd.

<u>Gwersyll yr Urdd Glan-llyn</u>

Mynychodd 12,500 o bobl y gwersyll yn ystod 2006-7. Mae 230 o welyau yno a chyflogir 21 o staff yn llawn amser a 39 yn rhan amser. Anelir at sicrhau fod cynnydd o 5% o ymwelwyr yn aros yn y gwersyll yn flynyddol, sef cynnydd o

dros 15% yn ystod cyfnod y cynllun. Dros gyfnod y cynllun, gobeithir gwella'r ddarpariaeth arlwyo yn y gwersyll, ychwanegu at y ddarpariaeth llety ac agor gweithgaredd newydd cyffrous. Bydd yn rhaid sicrhau grantiau er mwyn gwireddu'r cynllun.

Gwersyll yr Urdd Caerdydd

Agorodd y gwersyll ym mis Tachwedd 2004. Cyflogir pedwar aelod o staff llawn amser yn y gwersyll, ac wyth yn achlysurol. Mae llai o staff yng Ngwersyll Caerdydd oherwydd nad yw'r mwyafrif o weithgareddau yn digwydd oddi fewn i'r gwersyll. Bydd ymwelwyr yn hytrach yn ymweld ag amrywiol atyniadau allanol, gan gynnwys y Cynulliad, Amgueddfeydd Cenedlaethol, sinema, Stadiwm y Mileniwm. Mae 153 o welyau yno. Yn 2006/7 daeth 7,500 o ymwelwyr i aros yn y Gwersyll, oddeutu 15,000 arhosiad am noson. Gobeithir yng nghyfnod y cynllun y bydd y ganolfan yn gatalydd i gyrsiau celfyddydol ychwanegol. Anelir erbyn diwedd cyfnod y cynllun i ddenu 9,000 o ymwelwyr yn flynyddol.

Amcanion

Canolbwyntio ar ddatblygiad yr unigolyn

1. Denu mwy o gyrsiau i fynychu'r gwersylloedd.

2. Cynnal a chodi'r niferoedd sy'n mynychu Gwersylloedd Antur Glan-llyn, Llangrannog a Chyrsiau Celfyddydol yng Ngwersyll Caerdydd.

3. Sicrhau fod pobl ifanc yn awyddus i ddod i'r gwersylloedd i gael profiadau Cymraeg a Chymreig drwy ddatblygu gweithgareddau newydd amrywiol a fydd o gymorth i ddenu cwsmeriaid newydd, cadw cwsmeriaid presennol ac yn adnodd ar gyfer pobl leol a thwristiaid.

4. Parhau i fesur effaith ymweliad â'r gwersyll ar yr agwedd at y Gymraeg, ac at ddefnydd o'r Gymraeg.

5. Sicrhau fod y cyrsiau sydd o dan arweiniad swyddogion datblygu'r Urdd yn llwyddiannus.

6. Datblygu a chynyddu defnydd cymunedol o adnoddau'r gwersylloedd i'r trigolion lleol ac aelodau'r Urdd.

7. Sicrhau fod pawb yn cael yr un cyfle i fwynhau cyfleusterau'r gwersyll, beth bynnag fo'u cefndir. Sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau yn cydymffurfio â deddfau perthnasol.

8. Casglu barn plant a phobl ifanc ar ddarpariaeth y gwersylloedd.

9. Hyfforddi pobl ifanc fel swyddogion yng Ngwersyll Glan-llyn.

9. ADRAN GYFATHREBU

Cefndir

Rôl gefnogol i adrannau eraill yr Urdd sydd gan yr Adran Gyfathrebu. Yn ogystal â gwneud gwaith marchnata a chysylltiadau cyhoeddus i'r mudiad mae'r gwaith hefyd yn cwmpasu'r system ymaelodi, darparu gwybodaeth i aelodau drwy amrywiol ddulliau a chyfrifoldeb am gynnwys gwefan yr Urdd. Yn ogystal, cyhoeddir tri chylchgrawn misol yr Urdd gan yr adran ac adolygiad blynyddol yr Urdd. Mae tri yn gweithio yn llawn amser a dau yn gweithio rhan amser yn yr adran. Gwneir y gwaith gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r Urdd a'i weithgareddau ymysg y cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol, a gwneud yr Urdd yn ddewis amlwg i blant a phobl ifanc.

Cyhoeddir cylchgronau atyniadol i ddysgwyr y Gymraeg sef **Bore da** (7-11 oed) a **iaw!** (11+ oed) a chylchgrawn i Gymry Cymraeg sef **Cip** (7-11 oed), sydd yn annog darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Cyhoeddir deg rhifyn y flwyddyn o'r cylchgronau, a gall plant a phobl ifanc eu harchebu yn uniongyrchol neu drwy eu hysgolion. Mae gwerthiant misol o 9351 gan y cylchgronau, a darlleniad o bron i 30,000

<u>Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus</u>

Amcanion

1. Gwella delwedd y Gymraeg fel bod mwy o blant a phobl ifanc yn awyddus i'w ddefnyddio fel iaith gymdeithasol.

2. Codi proffil yr Urdd a'i weithgareddau yn y wasg a'r cyfryngau.

3. Drwy ddulliau marchnata, rhoi cefnogaeth i adrannau eraill sicrhau fod aelodaeth yr Urdd yn cael ei gynnal.

4. Datblygu gwefan yr Urdd i fod yn wefan ddeniadol, ddynamig, sy'n cael defnydd helaeth gan ein haelodau a'n harweinyddion.

<u>Cylchgronau</u>

Amcanion

1. Denu mwy o blant a phobl ifanc i brynu a darllen y cylchgronau.

2. Defnyddio'r cylchgronau i drafod gwaith yr Urdd.

3. Cynyddu mewnbwn y darllenwyr i'r cylchgronau a chasglu eu barn.

4. Defnyddio'r cylchgronau i drafod materion a sbarduno trafodaeth yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg.

10. ADRAN GWASANAETHAU CENEDLAETHOL

Cefndir

Yr Adran Gwasanaethau Cenedlaethol sy'n rhoi cefnogaeth weithredol i'r holl adrannau eraill. Cwmpasir y canlynol gan yr adran: swyddfa'r Prif Weithredwr, rheolaeth ariannol a phersonél, hyfforddiant, cefnogaeth technoleg gwybodaeth, cynnal gwefan yr Urdd, cyfathrebu a dosbarthu gwybodaeth, gweinyddu canghennau ac aelodaeth, nawdd a datblygu.

Mae naw yn gweithio i'r Adran Gwasanaethau Cenedlaethol, a un yn rhan amser, a hynny ar draws nifer o swyddfeydd. Mae'r adran yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth effeithiol a chywir o adnoddau Urdd Gobaith Cymru.

Amcanion

<u>Gwasanaethau Cenedlaethol</u>

1. Cynnal gweithdrefnau rheoli'r mudiad a sicrhau rheolaeth lywodraethol gywir o ran yr elusen.

2. Datblygu'r berthynas gyda chyllidwyr a sicrhau fod yr Urdd yn flaenllaw wrth gyfrannu at ddatblygiadau polisi yng Nghymru. Sicrhau adnoddau digonol i'r Urdd.

3. Sicrhau fod gweithdrefnau ariannol Urdd Gobaith Cymru yn gweithredu'n effeithiol a bod adroddiadau yn cydymffurfio gyda rheolau cyfrifyddol cyfredol.

4. Sicrhau fod gweithdrefnau cyflogaeth a phersonél Urdd Gobaith Cymru yn effeithiol.

5. Sicrhau fod yr holl weithgareddau a gynigir gan yr Urdd yn rhai diogel. Sicrhau fod gweithdrefnau iechyd a diogelwch, diogelu plant ac asesu risg, yn cael eu gweithredu.

6. Sicrhau gofalaeth o eiddo a buddsoddiadau'r Urdd. Datblygu polisi cynnal a chadw/ arian wrth gefn.

7. Anelu i sicrhau datblygiad cyfalafol yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn yng nghyfnod y cynllun, yn ddibynnol ar argaeledd grantiau.

8. Sicrhau fod adnoddau, swyddfeydd a systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu priodol gan staff.

9. Sicrhau fod holl waith yr Urdd yn cyrraedd safon briodol.

Hyfforddiant

10. Sicrhau fod staff yn derbyn hyfforddiant priodol i'w swyddi, a datblygu hyfforddiant addas i wirfoddolwyr.

11. Datblygu hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr ar gyflwyno iaith a newid iaith gweithgaredd, a defnyddio cywair iaith addas.

12. Hyfforddi arweinwyr newydd ifanc a rhoi ystyriaeth i ddulliau o achredu ymdrechion pobl ifanc os ydynt yn dymuno.

11. Amcanion a Thargedau yr Adrannau

Adran y Maes

Amcan	Targed
<u>Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol</u>	
Cynnig amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau, addas i'r oedran, er mwyn datblygu'r ddarpariaeth wrth i unigolion ddatblygu.	Trefnu rhaglen graidd yr Urdd, gan gynnwys cefnogaeth i adrannau ac aelwydydd. Cynnal eisteddfodau, teithiau i wersylloedd, gweithgareddau chwaraeon. Bydd hyblygrwydd i gynnig gweithgareddau ychwanegol i'r craidd. Cadw cofnod o'r nifer o weithgareddau a gynigir a gweld cynnydd o 10% yng nghyfnod y Cynllun.
Rhoi ystyriaeth i beth mae'r Urdd yn ei gynnig i oedrannau amrywiol a datblygu dulliau o annog cyfranogiad.	Cynnal rhaglen weithgaredd addas i'r holl aelodau gan roi ystyriaeth i farn aelodau. Sicrhau datblygiad yn y profiadau a gynigir wrth i aelodau fynd yn hŷn. Cadw cofnod o'r gweithgaredd sy'n digwydd, a faint o aelodau sy'n cymryd rhan. Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu marchnata'n addas. Sicrhau cynnydd o 10% mewn aelodaeth yn y cyfnodau pontio. Sefydlu gweithgareddau penodol wedi eu targedu at y cyfnod pontio.
Cydweithio â phartneriaid eraill i gynnal, a sefydlu cynlluniau ieuenctid sy'n cynnig gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol. Byddwn yn rhoi sylw i'r agenda polisi yn lleol, gan gydweithio gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol yn yr un maes.	Cofnodi ac adolygu'r gweithgareddau a gynigir yn y cyfnodau pontio. Manteisio ar y cyfle i gyd-gynllunio o leiaf un gweithgaredd y flwyddyn y rhanbarth, gan sicrhau ei fod yn hyrwyddo prif nod ac amcan yr Urdd. Parhau cysylltiadau gyda Phartneriaethau/ Fframweithiau Plant a Phobl Ifanc. Cydweithio â Chynlluniau Gweithredu Iaith, Fforymau Sirol a Mentrau Iaith. Datblygu ymhellach y cysylltiadau gyda Mudiad Ffermwyr Ifanc ar lefel genedlaethol.

Ysgogi brwdfrydedd mewn pobl ifanc i wirfoddoli ar ran yr Urdd a chynnig cyfleoedd hyfforddi, lle bo'n addas.	Hyrwyddo manteision gwirfoddoli i'r aelodau a hyrwyddo cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm. Cynnal hyfforddiant sydd yn ehangu sgiliau gwirfoddolwyr, heb fynd ati i ddatblygu i fod yn asiantaeth hyfforddi ein hunain. Cysylltu cynlluniau pontio a gweithgareddau i oedran cynradd gyda gwirfoddolwyr ifanc er budd eu cyflwyno i waith gwirfoddol yn gynnar. Bod yn effro i'r cyfleoedd, a'r manteision sydd yn codi trwy gynlluniau e.e. Llwybrau Dysgu, Y Fagloriaeth, Gwirfoddolwyr y Mileniwm. Rhoi ystyriaeth i ddulliau o ddangos llwyddiant.
<u>Cynyddu'r pwyslais ar weithredu yn gymunedol</u>	
Cynnal mwy o weithgaredd cymunedol y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys sefydlu adrannau ac aelwydydd newydd. Cynnal mwy o weithgareddau cymunedol yn ystod cyfnodau gwyliau, gan roi sylw i'r Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.	Monitro cynnydd/ gweithgaredd o fewn adrannau cymunedol. Sicrhau safon gweithgareddau o fewn y grwpiau cymunedol drwy gynnig cyfleoedd hyfforddi ac ymweliadau gan swyddogion datblygu a swyddogion cynorthwyol. Cynnig cefnogaeth i adrannau cymunedol presennol, cynnal awdit ohonynt a'u gweithgareddau a sicrhau un ymweliad bugeiliol y tymor i bob adran. Cynnig gweithgaredd yn ystod gwyliau ysgol. Lleiafswm o ddeg diwrnod y flwyddyn.
Sicrhau fod plant a phobl ifanc, beth bynnag fo'u cefndir, yn cael yr un cyfle i gymryd rhan.	Sicrhau fod pris gweithgareddau, hygyrchedd digwyddiadau, yn ei gwneud hi'n hawdd i aelodau gymryd rhan. Sicrhau fod y cywair iaith yn addas i'r gynulleidfa.

<u>Canolbwyntio ar ddatblygiad yr unigolyn</u>	
Cynnig amrywiaeth o brofiadau diwylliannol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys cynnal a threfnu Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth.	Hyrwyddo a chynnal Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth. Cynnal 134 Eisteddfod Cylch a 71 Eisteddfod Rhanbarth ar draws Cymru. Cofnodi faint o aelodau sy'n cymryd rhan. Sicrhau fod cystadlu ar bob cystadleuaeth. Datblygu cyfres o gyfleoedd celfyddydol yn ystod y flwyddyn, e.e. cwrs clocsio, theatr ieuenctid, sesiynau celf, clwb drama, gweithdy llais/ piano.
Datblygu gwaith chwaraeon Urdd Gobaith Cymru, gan roi sylw i brosiectau sy'n rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau iach.	Cynnig gweithgareddau awyr agored. Adolygu Strategaeth Chwaraeon yr Urdd, a sicrhau'r adnoddau cywir i gyflawni'r weledigaeth a geir yn y Strategaeth. Datblygu cynllun COGURDD.
Trwy gyfrwng Swyddogion Prosiect Chwaraeon sefydlu clybiau cymunedol, a hyfforddi hyfforddwyr chwaraeon, a hyrwyddo cystadlaethau chwaraeon.	Cynyddu'r niferoedd o swyddogion chwaraeon cymunedol o'r pump presennol i naw yng nghyfnod y Cynllun. Sicrhau bod pob swyddog chwaraeon cymunedol yn cynyddu'r niferoedd o glybiau sy'n cael eu trefnu ganddynt o ddeg i 15 yng nghyfnod y Cynllun. Sicrhau fod cynnydd o 10% o 200 yn y nifer o bobl ifanc sy'n derbyn hyfforddiant chwaraeon. Byddwn yn tracio a monitro'r rheiny sy'n derbyn hyfforddiant.
Trefnu cystadlaethau chwaraeon ar lefel cylch, rhanbarth, taleithiol a chenedlaethol, yn unol â'r Strategaeth Chwaraeon.	Parhau i drefnu cystadlaethau chwaraeon ar lefel cylch, rhanbarth a thaleithiol. Cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon 10% o'r 30,000 presennol.

	Cofnodi, adolygu ac addasu'r ddarpariaeth yn flynyddol. Cydweithio yn agos gyda'r cyrff rheoli chwaraeon a'r Cyngor Chwaraeon.
Cynnig cyfleoedd preswyl i blant a phobl ifanc. Sicrhau teithiau o bob rhanbarth i wersylloedd yr Urdd.	Sicrhau teithiau o bob rhanbarth i wersylloedd yr Urdd. Cynyddu ar y niferoedd o gyrsiau presennol i wersylloedd. Cynnig profiad preswyl tramor. Cynnig teithiau cyfnewid rhyngwladol.
Datblygu cynlluniau dyngarol yr Urdd gan gynnwys rhoi sylw i brosiectau lleol a rhyngwladol. Cynnwys gwaith dyngarol yr Urdd yng nghynlluniau presennol y mudiad, lle bo hynny'n bosibl. Rhoi sylw i brosiectau newid hinsawdd ac i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli yn y maes.	Codi proffil Neges Ewyllys Da yr Urdd. Codi proffil gwasanaeth Sul yr Urdd. Parhau i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli. Gwneud ymdrechion i ddod o hyd i gyllid ar gyfer ariannu gwaith dyngarol yr Urdd.
Datblygu cysylltiadau â gwledydd eraill, yn enwedig lle siaredir ieithoedd lleiafrifol.	Datblygu ceisiadau am grant Interreg ac arall i barhau gyda gwaith cyfnewid a theithiau tramor.

Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

Amcan	Targed
Cynnal Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol, gan sicrhau cydweithrediad digon o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda threfniadau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.	Sicrhau fod 15,000 yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a bod y ffigwr yn cynyddu'n flynyddol o 3%. Sicrhau fod mwy o gystadlu ar gystadlaethau presennol, gan adnabod bylchau.
Datblygu Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru fel gŵyl ddiwylliannol lwyddiannus lle mae pawb yn mwynhau defnyddio'r Gymraeg, gan sicrhau trefniadau perthnasol, delweddau positif a blaengar ac atyniadau newydd.	Cynnal arolygon i asesu dylanwad yr Eisteddfod ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at y Gymraeg.
Sicrhau cyllid craidd digonol i gynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, er mwyn sicrhau sail ariannol gref er mwyn gallu datblygu i'r dyfodol.	Cydweithio gyda chyllidwyr, a chynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
Datblygu a gweithredu cynlluniau marchnata addas gyda'r nod o ehangu ar y gynulleidfa, yn enwedig o ardal yr Eisteddfod. Amcangyfrifir fod oddeutu 100,000 yn mynychu'r Eisteddfod yn flynyddol.	Llunio cynllun marchnata blynyddol.
Datblygu Theatr Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, yn daleithiol a chenedlaethol, a sicrhau cyllid digonol i'w gynnal, gyda'r nod o sicrhau fod yr Urdd yn cynnig profiadau ymestynnol i berfformwyr ifanc.	Parhau i sicrhau'r cyllid. Sicrhau fod 50 o bob talaith yn cymryd rhan.
Sicrhau fod gwaddol cymunedol yn cael ei gynllunio fel rhan o ymweliad Eisteddfod i ardal. Gallai canlyniad hyn gynnwys sefydlu adrannau ac aelwydydd newydd, neu gynlluniau eraill.	Creu un aelwyd newydd yn dilyn bob Eisteddfod.
Datblygu'r profiadau celfyddydol ar faes yr Eisteddfod ac oddi arno, gan gynnwys dosbarthiadau meistr,	Cant y flwyddyn i elwa o'r profiadau celfyddydol ychwanegol yn yr Eisteddfod.

gweithdai amrywiol a'r cyfle i brofi celfyddydau newydd.	

Y Gwersylloedd

Amcan	Targed
Denu mwy o gyrsiau i fynychu'r gwersylloedd.	Llangrannog: Cynyddu o 20,000 i 22,500 Glan-llyn: Cynyddu o 12,500 i 14,000 Caerdydd: Cynyddu o 15,000 gwersyllwr/noson i 18,000 erbyn diwedd cyfnod y cynllun
Cynnal y niferoedd sy'n mynychu Gwersylloedd Antur Glan-llyn, Gwersyll Haf a chyrsiau eraill yn Llangrannog a Chyrsiau Celfyddydol yng Ngwersyll Caerdydd.	Glan-llyn: Denu 500 yn flynyddol Llangrannog: Denu 800 yn flynyddol Caerdydd: Denu 100 yn flynyddol
Sicrhau fod pobl ifanc yn awyddus i ddod i'r gwersylloedd i gael profiadau Cymraeg a Chymreig drwy ddatblygu gweithgareddau newydd amrywiol a fydd o gymorth i ddenu cwsmeriaid newydd, cadw cwsmeriaid presennol ac yn adnodd ar gyfer pobl leol a thwristiaid.	Glan-llyn: Datblygu gweithgaredd newydd, ymchwilio a sicrhau cyllid ac adnoddau digonol i ddatblygu adeiladau. Llangrannog: Sicrhau defnydd llawn o'r Ganolfan Treftadaeth, y Llethr Sgïo a'r Ganolfan Hamdden Caerdydd: Datblygu partneriaethau gyda darparwyr eraill yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.
Parhau i fesur effaith ymweliad â'r gwersyll ar yr agwedd at y Gymraeg, ac at ddefnydd o'r Gymraeg.	Glan-llyn, Llangrannog a Chaerdydd: Anelu i gael atborth o 80% yn ymateb yn gadarnhaol.
Datblygu a chynyddu defnydd cymunedol o adnoddau'r gwersylloedd i'r trigolion lleol ac aelodau'r Urdd.	Glan-llyn: 12 gweithgaredd allanol erbyn 2011 Llangrannog: Sicrhau defnydd allanol o'r Ganolfan Chwaraeon yn unol â strategaeth a gytunir gyda Chyngor Chwaraeon Cymru. Caerdydd: Dau ddigwyddiad rheolaidd yr wythnos.
Sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i fwynhau cyfleusterau'r gwersyll, beth bynnag fo'u cefndir. Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn cydymffurfio â deddfau perthnasol.	Rhoi ystyriaeth i hyn wrth gynllunio unrhyw weithgaredd.
Casglu barn plant a phobl ifanc ar ddarpariaeth y gwersylloedd.	Sicrhau fod eu barn yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu unrhyw

Hyfforddi pobl ifanc fel swyddogion yng Ngwersyll Glan-llyn	ddatblygiad newydd. Sicrhau fod 80% yn hapus â'r profiadau a gânt yn y gwersyll (sgôr 4-6 ar y ffurflenni arfarnu). Sicrhau fod dros gant yn derbyn hyfforddiant yn flynyddol. Sicrhau fod y Cynllun Hyfforddai yn parhau gan anelu at hyfforddi tri yn flynyddol.

Adran Gyfathrebu

Amcan	Targed
Gwella delwedd y Gymraeg fel bod mwy o blant a phobl ifanc yn awyddus i'w ddefnyddio fel iaith gymdeithasol.	Gweithredu cynllun marchnata blynyddol, a'i gydlynu ar draws holl adrannau'r Urdd. Datblygu ymgyrchoedd marchnata addas i blant a phobl ifanc i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i wneud hynny drwy ymuno yng ngweithgareddau'r Urdd.
Codi proffil yr Urdd a'i weithgareddau yn y wasg a'r cyfryngau.	Sicrhau fod proffil uchel gan yr Urdd drwy'r flwyddyn, rhyddhau 24 datganiad yn flynyddol. Sicrhau 12 ymddangosiad ar raglenni teledu, a 24 eitem radio.
Drwy ddulliau marchnata, rhoi cefnogaeth i adrannau eraill sicrhau fod aelodaeth yr Urdd yn cael ei gynnal.	Sicrhau fod presenoldeb atyniadol gan yr Urdd mewn sioeau a digwyddiadau ar draws Cymru. Cynhyrchu deunyddiau marchnata addas, a chynlluniau addas i hyrwyddo aelodaeth.
Datblygu gwefan yr Urdd i fod yn wefan ddeniadol, ddynamig, sy'n cael defnydd helaeth gan ein haelodau a'n harweinyddion.	Sicrhau fod gwefan yr Urdd yn cynyddu 10% yn flynyddol o ymweliadau'r flwyddyn. (Ffigwr 2006 yw 350,000)
Denu mwy o blant a phobl ifanc i brynu a darllen y cylchgronau.	Cynyddu gwerthiant y cylchgronau i 9,500 erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Cynnal pum gweithdy yn flynyddol i hybu gwerthiant y cylchgronau ac i godi ymwybyddiaeth.
Defnyddio'r cylchgronau i drafod gwaith yr Urdd.	Cyhoeddi tair erthygl y flwyddyn ym mhob un o'r cylchgronau.
Cynyddu mewnbwn y darllenwyr i'r cylchgronau a chasglu eu barn.	Cynyddu'r ymateb gan blant a phobl ifanc i'r cylchgronau, drwy'r we, drwy lythyr neu e-bost. Cynyddu nifer yr ysgolion sy'n cyfrannu erthyglau a gwaith i gylchgrawn **iaw!** (Ffigwr 2005-2006 = 18 ysgol)

Defnyddio'r cylchgronau i drafod materion a sbarduno trafodaeth yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg.	Cyhoeddi erthygl y flwyddyn yn **iaw!** a mesur yr ymateb.

Adran Gwasanaethau Cenedlaethol

Amcan	Targed
Cynnal gweithdrefnau rheoli'r mudiad a sicrhau rheolaeth lywodraethol gywir o ran yr elusen.	Sicrhau fod cyfarfodydd o wirfoddolwyr yr Urdd yn digwydd yn rheolaidd yn unol â'r rheolau sefydlog.
Datblygu'r berthynas gyda chyllidwyr a sicrhau fod yr Urdd yn flaenllaw wrth gyfrannu at ddatblygiadau polisi yng Nghymru. Sicrhau adnoddau digonol i'r Urdd.	Paratoi adroddiadau cynhwysfawr yn brydlon. Cynyddu incwm o ffynonellau allanol gan gynnwys grantiau, nawdd masnachol ac ymddiriedolwyr.
Sicrhau fod gweithdrefnau ariannol Urdd Gobaith Cymru yn gweithredu'n effeithiol a bod adroddiadau yn cydymffurfio gyda rheolau cyfrifyddol cyfredol.	Paratoi amcangyfrifon a chyfrifon mewnol misol. Cyflwyno cyfrifon wedi eu harchwilio yn flynyddol.
Sicrhau fod gweithdrefnau cyflogaeth a phersonél Urdd Gobaith Cymru yn effeithiol.	Sicrhau bod penodiadau, gwerthuso, hyfforddiant a datblygu staff yn dilyn amserlen benodol.
Sicrhau fod yr holl weithgareddau a gynigir gan yr Urdd yn rhai diogel. Sicrhau fod gweithdrefnau iechyd a diogelwch, diogelu plant ac asesu risg, yn cael eu gweithredu.	Sicrhau fod 100% o staff wedi eu gwirio trwy drefn y Swyddfa Cofnodion Troseddol a bod rhaglen ar gyfer gwirio gwirfoddolwyr yn ei le. Adolygu asesiadau risg yn flynyddol.
Sicrhau gofalaeth o eiddo a buddsoddiadau'r Urdd. Datblygu polisi cynnal a chadw/ arian wrth gefn.	Gweithredu unrhyw bolisi sy'n cael ei gymeradwyo gan Fwrdd Busnes yr Urdd.
Anelu i sicrhau datblygiad cyfalafol yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn yng nghyfnod y cynllun, yn ddibynnol ar argaeledd grantiau.	Sicrhau fod y twf o ran niferoedd grwpiau disgwyliedig yn digwydd o ganlyniad i fuddsoddi yn y Gwersylloedd. Sicrhau fod Gwersyll Caerdydd yn parhau i ddatblygu.
Sicrhau fod adnoddau, swyddfeydd a systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu priodol gan staff.	Parhau i ddatblygu'n cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth, cyn belled â bod cyllid yn caniatáu.
Sicrhau fod holl waith yr Urdd yn	Datblygu dulliau sicrhau ansawdd ar

cyrraedd safon briodol. Datblygu polisi amgylcheddol. **Hyfforddiant**	draws y mudiad.
Sicrhau fod staff yn derbyn hyfforddiant priodol i'w swyddi, a datblygu hyfforddiant addas i wirfoddolwyr.	Datblygu a chyflwyno hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr ar asesu risg, diogelwch plant. Hyfforddi 100% o staff yn ystod cyfnod y cynllun. Creu a dechrau cyflwyno cynllun hyfforddi gwirfoddolwyr.
Datblygu hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr ar gyflwyno iaith a newid iaith gweithgaredd, a defnyddio cywair iaith addas.	Datblygu gweithdrefnau hyfforddiant yr Urdd i staff a gwirfoddolwyr. Datblygu a chynnal yr hyfforddiant. Cynyddu effaith gweithgareddau a digwyddiadau ar ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg. Datblygu dull o fesur a chofnodi hyn. Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni hyn.
Hyfforddi arweinwyr newydd ifanc a rhoi ystyriaeth i ddulliau o achredu ymdrechion pobl ifanc os ydynt yn dymuno.	Datblygu strategaeth recriwtio a hyfforddi arweinyddion, gan roi ystyriaeth i achredu'r hyfforddiant. Hyfforddi 150 yn ystod cyfnod y cynllun.